CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU

# Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

**Ar y cynnig i ddarparu lleoedd ysgol ychwanegol er mwyn ateb y galw yn y dyfodol am addysg cyfrwng Cymraeg trwy ehangu Ysgol Sant Baruc o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2021.**



Gellir sicrhau bod y ddogfen hon ar gael yn Braille.
Hefyd, gellir sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd cymunedol eraill os bydd angen.
Cysylltwch â ni ar 01446 709727 er mwyn trefnu hyn.

# Cynnwys


| | Tudalennau |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | 3 |
| **Cyd-destun Cenedlaethol** | 3 |
| **Cyd-destun Polisi Lleol** | 4 |
| **Heriau'r Presennol** | 4 - 5 |
| **Proffil Cymunedol** | 5 |
| **Asesiad o'r Effaith** | 5 – 11 |
| **Crynodeb Sgorio** | 12 |
| **Casgliad** | 12 |

## 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn y Fro'n cael pob cyfle i gyflawni'r deilliannau gorau posibl. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ein hysgolion yn dal i fod yn gynaliadwy, eu bod yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a'u bod wedi'u hofferu â'r amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod ymgyngoriadau'n ystyrlon, yn berthnasol ac yn briodol i'r cymunedau sy'n rhan ohonynt, ac mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod cynigion yn eglur, yn dryloyw, ac yn adlewyrchu'r rhai yr effeithir arnynt. Mae hon yn weledigaeth na ellir ond ei gwireddu trwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach yr ydym ni i gyd yn eu gwasanaethu.

Mae'r ddogfen hon yn egluro cynigion y Cyngor i ehangu Ysgol Sant Baruc o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2021.

Mae'r cynnig hwn yn cael ei ystyried dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae'r adran hon yn cyfeirio at Newidiadau a Reoleiddir i ysgol, sy'n cynnwys cynyddu capasiti'r ysgol 25% o leiaf. Mae ysgol newydd â 420 o leoedd ar Lannau'r Barri wedi cael ei chynnwys fel rhan o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor. Cynigir y byddai Ysgol Sant Baruc yn symud i mewn i'r adeilad hwn erbyn mis Medi 2021 i ddarparu'r capasiti gofynnol.

Er bod trosglwyddo'r ysgol i'r adeilad newydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, nid yw'n ddarostyngedig i'r broses statudol gan y byddai'r trosglwyddiad o fewn 1.609344 o gilometrau (1 filltir).

## 2. Cyd-destun Cenedlaethol

Mae'r arweiniad statudol allweddol ar gyfer awdurdodau lleol wrth ddatblygu cynigion statudol i drefniadaeth ysgolion yn unol ag adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Wrth ystyried cynigion, mae'n rhaid i'r awdurdod ystyried yr effaith ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd a gafodd eu dynodi ar gyfer rhaglenni cymunedau yn gyntaf neu raglenni olynyddion.

Cyhoeddwyd Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr ym mis Gorffennaf 2017, ac mae'n nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer y Gymraeg. Mae cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn un o'r tair thema allweddol, a bydd y newidiadau trawsffurfiol allweddol canlynol yn ofynnol o fewn y sector addysg er mwyn gwireddu'r weledigaeth.

## 3. Cyd-destun Polisi Lleol.

Gan adleisio polisi cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi ymrwymo fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol 2016-20 i gyflawni gweledigaeth o – **'Cymunedau Cryf gyda dyfodol disglair'**.

Mae Bro Morgannwg wedi ymrwymo i gyflawni'r amcan 'Bro Uchelgeisiol' gan godi safonau cyflawniad cyffredinol trwy foderneiddio addysg yn y Fro er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn addysg o'r radd flaenaf.

Rydym yn credu, er mwyn cyflawni hyn, ei fod yn bwysig i ni gefnogi deilliannau dysgu ac addysgu trwy ddarparu adeiladau modern ac addas at y diben sy'n bodloni anghenion addysg fodern. Mae angen i ysgolion allu darparu'r profiad dysgu gorau posibl er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau sydd ar gael iddynt a' u bod yn gallu cyrraedd eu llawn botensial.

Mae'r Cynllun Cymraeg mewn Addysg 2017-2021 yn disgrifio cyfarwyddyd ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg dros y cyfnod o bedair blynedd, yn unol â gweledigaeth Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg ac Addysg yng Nghymru.

## 4. Heriau'r Presennol

Byddai'r cynnig i gynyddu'r capasiti yn Ysgol Sant Baruc yn mynd i'r afael â nifer o heriau.

- Sicrhau bod y Cyngor yn gallu ateb y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol yn seiliedig ar dueddiadau cyfredol.
- Darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu i newid ac a fydd yn herio ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu llawn botensial.
- Cynyddu lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd.
- Bydd yr adeilad newydd yn cyrraedd safon "Rhagorol" BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) ac yn cael ei adeiladu fel ei fod yn cael A fel sgôr EPC (Tystysgrif Perfformiad Ynni).
- Cefnogi'r amcanion yng Nghynllun Cymraeg mewn Addysg Bro Morgannwg 2017-2020.
- Cyfrannu'n effeithiol at darged Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

## 5. Proffil Cymunedol

Mae Ysgol Sant Baruc ar St Pauls Avenue, yn ne orllewin Y Barri. Mae'r ysgol yn rhannu ffordd fynediad gyda'r ysgol gynradd High Street gyfagos.  Hefyd mae'r ysgol yn agos i ardal siopa'r Heol Fawr.

O ganlyniad i'r cynnig, byddai'r ysgol yn trosglwyddo i adeilad ysgol newydd ar ddatblygiad Glannau Dŵr Y Barri. Rhagwelir y byddai adeilad newydd yr ysgol yn cael ei gwblhau mewn pryd ar gyfer y cynnydd mewn niferoedd disgyblion o fis Medi 2021.

**Datblygiadau Tai**

Mae datblygiad y Glannau wedi'i leoli i'r de orllewin o ganol tref y Barri a rhwng canol y dref ac Ynys y Barri. Bydd tua 1,700 o anheddau'n cael eu hadeiladu ar y cyfan erbyn 2022. Rhagfynegir y bydd Datblygiad Glannau'r Barri ar y cyfan yn dwyn tua 170 o ddisgyblion meithrin, 473 o ddisgyblion cynradd a 422 o ddisgyblion uwchradd. Caiff nifer rhagamcanol y disgyblion sy'n deillio o ddatblygiad ei gyfrifo gan ddefnyddio fformwla sy'n deillio o ddata'r cyfrifiad ynghylch deiliaid tai ym Mro Morgannwg. Mae cyfanswm o 756 o unedau wedi cael eu hadeiladu ac yn rhai y mae pobl yn byw ynddynt hyd yma gyda phlant wedi'u lleoli mewn ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal.

Ar hyn o bryd mae datblygiad Glannau'r Barri'n bwydo Ysgolion Cynradd High Street a Holton ar gyfer darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg, Ysgol Sant Baruc ar gyfer darpariaeth cynradd cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cynradd yr Holl Saint a Sain Helen ar gyfer addysg enwadol. Ni chynigir unrhyw newid i hyn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Mae 900  dai ar ôl i'w hadeiladu a'u cwblhau erbyn 2022 ar ddatblygiad y Glannau nad ydynt yn cynnwys fflatiau a rhandai ag 1 ystafell wely gan na thybir y bydd plant yn byw yn y rhain. Rhagfynegir y bydd y 900 o dai sy'n weddill yn rhoi cyfanswm pellach o 90 o ddisgyblion meithrin, 250 o ddisgyblion cynradd a 223 o ddisgyblion uwchradd. O'r 250 o blant o oedran cynradd a fydd yn deillio o ddatblygiad y Glannau yn y Barri, byddai ar 47 (19%) angen darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar y galw yn yr ardal ar hyn o bryd.

## 6. Asesiad o'r Effaith

Mae'r rhan hon o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn asesu'r effaith bosibl y gallai'r cynnig hwn ei chael ar y gymuned leol. Mae'r wybodaeth a ddadansoddwyd yn y broses hon yn cynrychioli cipolwg o'r sefyllfa bresennol. Mae'r asesiad o effaith yn ddogfen sy'n esblygu, a bydd yn parhau i gael ei datblygu drwy gydol y project. Caiff adborth a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori ei ddefnyddio i lywio'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, a gaiff ei gyflwyno i'r Cabinet fel rhan o'r adroddiad ar yr ymateb i'r ymgynghoriad.

Cafodd wyth mesur allweddol eu nodi:

| Cyf. | Mesur |
|---|---|
| CI1 | Plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol |
| CI2 | Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol. |
| CI3 | Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol |
| CI4 | Cyfleusterau cymunedol a ddarperir a gweithgareddau a gynhelir ar safle'r ysgol |
| CI5 | Effaith ar fusnesau lleol |
| CI6 | Effaith ar gyflogaeth leol |
| CI7 | Effaith ar seilwaith lleol |
| CI8 | Trefniadau cludiant |

Aseswyd yr wyth mesur i nodi unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar y gymuned leol a'r gymuned ehangach, a rhoddwyd sgôr sy'n amrywio o -3 i +3 ar sail y cydbwysedd o dystiolaeth oedd ar gael.

| Sgôr | Asesiad |
|---|---|
| -3 | Dirywiad mawr |
| -2 | Dirywiad cymedrol |
| -1 | Dirywiad bach |
| 0 | Dim newid yn gyffredinol |
| 1 | Gwelliant bach |
| 2 | Gwelliant cymedrol |
| 3 | Gwelliant mawr |

## 6. Effeithiau ar y Gymuned Leol

| Cyf. | Mesur | Sgôr | Effaith y Symud Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| CI1 | Plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol | 1 | Mae datblygiadau tai diweddar wedi arwain at nifer y disgyblion yn cynyddu yn ne orllewin Y Barri. Mae rhagamcaniadau yn dangos na fyddai Ysgol Sant Baruc yn gallu ateb y galw o fis Medi 2021. Byddai cynyddu capasiti Ysgol Sant Baruc erbyn mis Medi 2021 yn arwain at yr ysgol yn llwyddo i ymdopi â'r galw a ragamcanwyd o'r tu fewn i'r dalgylch.<br><br>Mae nifer o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg lleol sydd â digon o le.<br>Hefyd mae cyfle i gynyddu nifer o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg os bydd angen ychwanegol.<br><br>Fodd bynnag, bu tueddiad tuag at gynnydd yn niferoedd disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Bu hyn yn amlwg yn Llanilltud Fawr gydag Ysgol Dewi Sant yn agor. Yn y flwyddyn gyntaf ar agor, dim ond 3 disgybl a ddechreuodd yn y dosbarth derbyn. Dim ond 7 mlynedd yn ddiweddarach, roedd dosbarth derbyn mis Medi 2018 yn orlawn, gyda 32 o ymgeiswyr ar gyfer 30 o leoedd.<br><br>Mae holl drefniadau dalgylch ac ysgolion bwydo Bro Morgannwg yn destun adolygiad rheolaidd ac mae adolygiad eang wedi cael ei gynllunio ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu hadlewyrchu mewn ymgynghoriad ar drefniadau derbyn i'r ysgol yn y dyfodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| CI2 | Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol. | 2 | Ar hyn o bryd mae Ysgol Sant Baruc yn cynnwys clwb brecwast a clwb ar ôl ysgol a gynhelir yn breifat.<br><br>Mae'r clwb brecwast ar gael o 7.40am tan 9am.<br><br>Mae'r clwb ar ôl ysgol ar gael o 3.20pm tan 5pm.<br><br>Mae'r clwb brecwast yn rhedeg ers 2 flynedd yn dilyn addasiadau i'r adeilad sy'n galluogi gosod agoriad gweini bach. Dechreuodd y clwb ar ôl ysgol o fis Medi 2018. Mae'r ddau glwb yn boblogaidd gyda rhieni.<br><br>Hefyd mae Ysgol Sant Baruc yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r rhain yn cynnwys rhedeg traws gwlad, rygbi a sesiynau wythnosol mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru.<br><br>Y bwriad yw y byddai'r holl gyfleusterau presennol i blant, rhieni a'r gymuned yn parhau pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Byddai'r cynnig yn golygu cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n debygol o arwain at fwy o alw am wasanaethau ysgol, yn ogystal â rhoi'r cyfle i ehangu nifer y gwasanaethau a gynigir.<br><br>Mae'r cynnig yn ffurfio rhan o Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor. Byddai hyn yn cynnwys creu cyfleusterau newydd o'r radd flaenaf sy'n addas at yr 21ain ganrif. Elfen allweddol Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yw darparu cyfleusterau cymunedol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| CI3 | Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol | 1 | Ar hyn o bryd mae Ysgol Sant Baruc yn defnyddio nifer o gyfleusterau allanol oherwydd cyfyngiadau'r safle presennol.<br><br>Mae Ysgol Gynradd High Street yn rhannu cyfleusterau cinio gydag Ysgol Sant Baruc. Caiff disgyblion eu hebrwng o Ysgol Sant Baruc i High Street bob amser cinio. Mae hyn yn arwain at amser cyfyngedig i ddisgyblion orffen eu cinio. Cafodd hyn ei godi gan Estyn.<br><br>Mae'r ysgol yn defnyddio Parc Porthceri ar gyfer rhedeg traws gwlad oherwydd bod y lle yn yr awyr agored yn gyfyngedig.<br><br>Ar hyn o bryd defnyddir Ysgol Sant Curig ar gyfer chwaraeon gan nad oes gan y safle presennol gae ac mae'r lle yn yr awyr agored yn gyfyngedig.<br><br>Hefyd defnyddir Neuadd Eglwys y Drindod ar gyfer cyngherddau oherwydd maint cyfyngedig y neuadd yn yr adeilad presennol.<br><br>Byddai cynyddu capasiti'r ysgol a'i symud i adeilad newydd yn golygu na fyddai'n rhaid i'r ysgol barhau i ddefnyddio Ysgol Gynradd High Street, Ysgol Sant Curig a Neuadd Eglwys y Drindod. Byddai gan yr ysgol newydd gyfleusterau gwell gan gynnwys chwaraeon, perfformio a chael cinio. Gallai'r gymuned gael mynediad at hyn. |
| CI4 | Cyfleusterau cymunedol a ddarperir a | 3 | Ar hyn o bryd nid yw Ysgol Sant Baruc yn cynnig unrhyw |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gweithgareddau ac a gynhelir ar safle'r ysgol | | gyfleusterau gosod neu gyfleusterau at ddefnydd y gymuned. Mae hyn oherwydd cyfyngiadau safle presennol yr ysgol.<br><br>Nod allweddol Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yw sicrhau y caiff cyfleusterau'r ysgol eu datblygu i ddiwallu anghenion y gymuned leol.<br><br>Byddai aelodau'r gymuned leol yn cymryd rhan drwy gydol datblygiad y cynlluniau ar gyfer adeilad newydd yr ysgol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni anghenion y gymuned ac yn gwella'r cyfleusterau sydd ar gael.<br><br>Byddai cynyddu'r capasiti a symud yr ysgol i adeilad newydd yn arwain at gyfleusterau gwell i'r gymuned eu defnyddio. |
| CI5 | Effaith ar fusnesau lleol | 0 | Mae'r ysgol yn agos i nifer o fusnesau, yn enwedig y rhai ar High Street, sy'n ardal siopa bwysig yn Y Barri.<br><br>Nid oes gan yr ysgol gysylltiadau agos ag unrhyw fusnesau lleol neu'n eu cefnogi. |
| CI6 | Effaith ar gyflogaeth leol | 3 | Byddai pob aelod o staff a gyflogir yn yr ysgol ar y dyddiad symud yn trosglwyddo'n awtomatig i'r safle newydd heb unrhyw newid i delerau ac amodau eu cyflogaeth.<br><br>Gan y byddai'r ysgol yn cynyddu o 210 o leoedd i 420 o leoedd, byddai angen staff ychwanegol. Byddai hyn yn cynnwys swyddi addysgu a swyddi i staff cymorth. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| CI7 | Effaith ar seilwaith lleol | 3 | Mae mynediad at Ysgol Sant Baruc yn gyfyngedig gan ei bod yn rhannu ffordd fynediad gydag Ysgol Gynradd High Street. Mae'r ffordd fynediad yn ffordd pengaead ac mae parcio ar y stryd yn gyfyngedig. Nid oes gan yr ysgol faes parcio.<br><br>Byddai cynyddu'r capasiti a throsglwyddo'r ysgol i'r adeilad newydd yn lliniaru tagfeydd o gwmpas y safle presennol. Cafodd y safle newydd ei ddylunio'n unswydd ar gyfer ysgol.<br><br>Mae goblygiadau traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried yn rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a fyddai'n ofynnol er mwyn cael caniatâd cynllunio i'r gwaith adeiladu pe bai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu. |
| CI8 | Trefniadau cludiant | 0 | Mae ar y Cyngor ddyletswydd i ddarparu cludiant ysgol am ddim i blant oedran ysgol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded i'r ysgol briodol agosaf.[1]<br><br>*"Diffinnir hyn fel mwy na 2 filltir i'r ysgol addas agosaf ar gyfer disgyblion Cynradd a mwy na 3 milltir ar gyfer disgyblion Ysgolion Uwchradd. Mesurir pellteroedd drwy'r llwybr cerdded agosaf sydd ar gael."*[2]<br><br>Felly byddai unrhyw ddisgybl sy'n mynychu Ysgol Sant Baruc ar y dyddiad symud i'r safle newydd ac sy'n byw mwy na 2 filltir o'r safle newydd yn gymwys ar gyfer cludiant ysgol am ddim. Ni |

[1]Polisi Darparu Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol (Adolygwyd Chwefror 2010)

[2]Gorchymyn Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | fyddai unrhyw ddisgybl nad yw'n byw 2 filltir o'r safle newydd o ganlyniad i'r ail-leoliad yn gymwys i gael trafnidiaeth ysgol am ddim mwyach. |

## 7. Crynodeb Sgorio

| Cyf. | Cymuned Leol |
|---|---|
| CI1 | 1 |
| CI2 | 2 |
| CI3 | 1 |
| CI4 | 3 |
| CI5 | 0 |
| CI6 | 3 |
| CI7 | 3 |
| CI8 | 0 |
| Sgôr cyfartalog | 1.625 |

## 8. Casgliad

Mae'r asesiad effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol mewn 2 o'r 8 mesur a aseswyd. Byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol mewn 6 o'r 8 mesur a aseswyd. Yn gyffredinol, byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Byddai'r cynnig yn galluogi'r ysgol i barhau â'i llwyddiant wrth gynnig addysg i fwy o ddisgyblion. Byddai'n cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol fyddai'n gallu addasu i newid, wrth herio a chefnogi plant i gyflawni eu llawn botensial.

Byddai'r cynnig yn galluogi'r gymuned i barhau i ddefnyddio a rhyngweithio â'r ysgol ac i wneud hynny fwyfwy, drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

Byddai'r cynnig yn rhoi dull cyson o 3-11 oed fyddai'n hybu ac yn tanlinellu parhad a chynnydd i'r disgyblion, gan sicrhau cwricwlwm sy'n eang ac yn gytbwys.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau ar gyfer disgyblion y tu allan i oriau arferol yr ysgol. Cynigir y bydd o leiaf pob cyfleuster presennol ar gyfer rhieni disgyblion a'r gymuned yn parhau gyda'r cynnig.

Casgliad yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yw y byddai'r cynnig i gynyddu nifer y lleoedd ysgol yn Ysgol Sant Baruc yn diwallu anghenion y gymuned ehangach yn well, i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad a'r galw am leoedd.